

THOMAS, DAVID (bu farw 1735), bardd

Enw: David Thomas
Dyddiad marw: 1735
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Dywed **Edward Evan** mai o Geredigion yr hanoedd, ac iddo ddyfod i Forgannwg yn 1727 - yn ôl ' **Iolo Morganwg** ' yr oedd y pryd hynny rhwng 12 a 15 oed. Ymsefydlodd ym Metws Tir Iarll; yr oedd yn aelod o gynulleidfa **Rees Price**, Tyn-ton; tua 1730 dechreuodd brydyddu dan hyfforddiant **John Bradford**, ac yn 1734 y mae **Bradford** yn ei enwi ymhlith ' gramadegwyr ' Morgannwg. Ond cyn 1734 yr oedd wedi priodi (yn anffortunus, meddai **Edward Evan**) a symud i blwyf Ystrad Dyfodwg, gan fyw ym Mhandy'r Ystrad; bu farw yno yn 1735. Y mae rhai englynion ganddo yn y gyfrol o waith **Lewis Hopkin**, *Y Fêl Gafod*. Gadawodd hefyd drosiad ar fesur cywydd o Lyfr y Pregethwr, pennod i, a roes gychwyn i'r trosiad o'r holl lyfr, 1767, gan **Lewis Hopkin** ac **Edward Evan** (*Llyfryddiaeth y Cymry*, 497).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), yn bennaf 228, 244-5, 279, ond gweler y fynegai hefyd

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821111

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). THOMAS, DAVID (bu farw 1735), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-DAV-1735>

Clippwr

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government